**Rhif: WG51178**

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

## Gwella cymorth i blant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd ledled Cymru

**Hoffem gael eich barn ar newidiadau arfaethedig i wella gwasanaethau mabwysiadu, maethu a gofal gan berthynas yng Nghymru, gan gefnogi ein gwaith i drawsnewid gofal cymdeithasol plant.**

Dyddiad cyhoeddi: 04 Awst 2025

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 27 Hydref 2025

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 2025

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar gynigion i gyflwyno newidiadau i is-ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol ochr yn ochr â diwygiadau i'r canlynol:

- y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a

- y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig a ddyroddwyd o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Nod y newidiadau hyn yw gwella gwasanaethau mabwysiadu, maethu a gofal gan berthynas yng Nghymru, gan gefnogi ein gwaith i drawsnewid gofal cymdeithasol plant.

Y bwriad hefyd drwy'r ymgynghoriad hwn yw cydweithio â'r sector i gael dealltwriaeth werthfawr ynghylch sut y gallai cyflwyno cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth weithio'n ymarferol, a beth fyddai'r manteision a'r anfanteision posibl.

## Sut i ymateb

Gallwch gyflwyno eich ymateb erbyn 27 Hydref am hanner nos, mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- llenwi ein ffurflen ymateb ar-lein

- lawrlwytho ein ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, ei llenwi a'i hanfon mewn e-bost i: plantsynderbyngofal@llyw.cymru (rhowch y cyfeirnod **WG51178** ym mhwnc eich e-bost)

- lawrlwytho ein ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, ei llenwi a'i phostio i'r cyfeiriad isod:

Ymgynghoriad: WG51178
Y Tîm Gwella Canlyniadau i Blant
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Tîm Gwella Canlyniadau i Blant
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: plantsynderbyngofal@llyw.cymru

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Erth. 6(1)(e)

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgyngoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Lle y bo Llywodraeth Cymru'n ymgymryd â gwaith dadansoddi pellach ar ymatebion yr ymgynghoriad, yna mae'n bosibl y bydd y gwaith hwn yn cael ei gomisiynu i'w gynnal gan drydydd parti awdurdodedig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghoriaeth). Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawl o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cyflwyniad

Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, a phobl sy'n gadael gofal, yn rhan bwysig o gynllun ehangach y Llywodraeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Cynllun yn nodi'n glir beth fydd y Llywodraeth yn ei wneud i helpu i wneud Cymru yn lle da i dyfu i fyny ynddo i blant a phobl ifanc.

Darperir y fframwaith ar gyfer hyn drwy ein hwyth ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n canolbwyntio ar weledigaeth newydd ar gyfer Gwasanaethau Plant yng Nghymru. Maent yn ymwneud â gwneud newid radical i'r system gyfan a rhoi'r math cywir o ofal ar waith ar gyfer pob plentyn: diwygio ac uno gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, plant wedi'u mabwysiadu a phobl sy'n gadael gofal.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau gweld mwy o blant yn cael eu cefnogi i aros gyda'u teuluoedd a llai o blant a phobl ifanc yn ymuno â'r system ofal. Rydym am sicrhau bod pobl ifanc yn aros mewn gofal am gyn lleied o amser â phosibl, yn unol ag anghenion y person ifanc. Tra bod plant mewn gofal, rydym am iddynt aros yn agos at eu cartrefi er mwyn parhau i fod yn rhan o'u cymuned - rhwydwaith y plentyn.

Mae'r newidiadau rheoliadol arfaethedig sy'n cael eu hystyried yn elfen allweddol o'r newid radical i'r system gyfan rydym yn ceisio ei wneud ac maent mewn ymateb uniongyrchol i adborth gan aelodau o'r sector gwasanaethau cymdeithasol plant ynghylch sut i wella cymorth i blant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd ledled Cymru.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi newidiadau arfaethedig i'r canlynol:

- Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005 a Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 i symleiddio'r trefniadau ar gyfer darparwyr y gwasanaethau hyn a gwella hygyrchedd gwasanaethau cymorth i blant, pobl ifanc ac oedolion wedi'u mabwysiadu.
- y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ddod â rheoliadau a chanllawiau arfer da presennol at ei gilydd a chyfuno egwyddorion Deddf 2014 â Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 a'i rheoliadau cysylltiedig.
- Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018, Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 a Chod Ymarfer Rhan 6 i ddarparu dull mwy hyblyg o asesu addasrwydd ar gyfer lleoliadau gofal gan berthynas ochr yn ochr ag ymagwedd fwy hyblyg at y fframwaith Plant sy'n Derbyn Gofal wrth gefnogi'r lleoliad.
- Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018 i gefnogi proses fwy effeithiol ac effeithlon i drosglwyddo gofalwyr maeth rhwng darparwyr gwasanaethau maethu.

- y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i esbonio'n well sut y gall gwahanol fathau o ofalwyr maeth gael y lwfans maethu uwch.

- Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 i adlewyrchu cyflwyno'r adroddiad byr a amlinellir yn Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018.

Mae ymgynghoriad ar wahân hefyd yn cael ei gynnal ar newidiadau ehangach i'r Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) gan gynnwys:

- pennod bwrpasol ar rianta corfforaethol a fydd yn nodi ystod o ofynion ar gyfer awdurdodau lleol yn eu rôl fel rhieni corfforaethol.
- cryfhau pwysigrwydd llais y plentyn yn benodol o fewn penodau cynllunio a lleoliadau gofal a chymorth y Cod.
- cryfhau canllawiau ar gynnal symudiadau a chyfarfodydd adolygu.
- diweddariad ar derminoleg a deddfwriaeth ers y diweddariad diwethaf o'r Cod a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2018.

Mae'r ymgynghoriad ar yr agweddau hyn hefyd ar gael ar ein gwefan**.** Bydd unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r ddau ymgynghoriad yn cael eu hymgorffori mewn un Cod Ymarfer wedi'i ddiweddaru a fydd yn cael ei osod gerbron y Senedd ar yr un pryd.

# MABWYSIADU

## Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu - Newidiadau Rheoliadol Arfaethedig

*Mae'r adran hon yn ymwneud â chwestiynau 1 i 5 yr ymgynghoriad.*

Diffinnir gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002 fel "cwnsela, cyngor a gwybodaeth, ac unrhyw wasanaethau eraill a ragnodir gan reoliadau, mewn perthynas â mabwysiadu". Mae'n ofynnol i'r rhan fwyaf o ddarparwyr gwasanaethau cymorth mabwysiadu gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu, gofyniad sydd â'r bwriad o sicrhau diogelwch cadarn ac ansawdd uchel y gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw agweddau ar y gofyniad hwn yn gweithredu'n effeithiol yn ymarferol. Felly, rydym yn cynnig diwygio rheoliadau penodol i symleiddio gofynion ar gyfer darparwyr a sicrhau bod mwy o ddefnyddwyr gwasanaethau yn gallu manteisio ar y gwasanaethau cymorth hyn. Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod gofynion yng Nghymru yn cyd-fynd â'r rhai yn Lloegr, yn dilyn diwygiadau tebyg a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU o dan The Adoption Support Agencies (England) (Amendment) Regulations 2023. Bydd y cysondeb hwn yn helpu i hwyluso'r broses o leoli plant gyda theuluoedd yn Lloegr.

### Pwy sy'n gorfod cofrestru gydag AGC?

Mae'r gofyniad i gofrestru gydag AGC fel arfer yn berthnasol i unrhyw ddarparwr sy'n cynnig gwasanaethau cymorth mabwysiadu. Mae'r rhestr o wasanaethau mabwysiadu yn Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019 wedi'i rhagnodi at ddibenion Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 sy'n amlinellu gwasanaethau cymorth mabwysiadu fel:

(a) cwnsela, cyngor a gwybodaeth, ac

(b) unrhyw wasanaethau eraill a ragnodir gan reoliadau,

Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys:

(a) cynhorthwy i rieni mabwysiadol, plant mabwysiadol, a phersonau perthynol mewn perthynas â threfniadau ar gyfer cyswllt rhwng plentyn mabwysiadol a rhiant geni neu berson perthynol i'r plentyn mabwysiadol.

(b) gwasanaethau y gellir eu darparu mewn perthynas ag anghenion therapiwtig plentyn mewn perthynas â mabwysiadu'r plentyn.

(c) cynhorthwy at ddiben sicrhau bod y berthynas rhwng plentyn a rhiant mabwysiadol y plentyn yn parhau, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer y rhiant mabwysiadol at ddiben diwallu unrhyw anghenion arbennig y plentyn sy'n codi o'r mabwysiad hwnnw ac yn ddarostyngedig i baragraff (3) o Reoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019, gofal seibiant.

(d) cynhorthwy pan amharwyd ar drefniant neu leoliad mabwysiadu neu pan fo perygl y bydd hynny yn digwydd, gan gynnwys:

(i) cyfryngu; a

(ii) trefnu a chynnal cyfarfodydd i drafod achosion o amharu ar fabwysiadau neu leoliadau.

(e) cynhorthwy i bersonau mabwysiedig sydd wedi cyrraedd 18 oed i gael gwybodaeth mewn perthynas â'u mabwysiad neu i hwyluso cyswllt rhwng y personau hynny a'u perthnasau.

(f) cynhorthwy i berthnasau personau mabwysiedig sydd wedi cyrraedd 18 oed i gael gwybodaeth mewn perthynas â'r mabwysiad hwnnw neu i hwyluso cyswllt rhwng y personau hynny a'r person mabwysiedig.

(g) gwasanaethau i alluogi grwpiau o blant mabwysiadol, rhieni mabwysiadol a rhieni geni neu gyn-warcheidwaid plentyn mabwysiadol i drafod materion sy'n ymwneud â mabwysiadu.

**Eithriadau presennol**

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 yn caniatáu rhai eithriadau i'r gofyniad i wasanaethau mabwysiadu gofrestru gydag AGC. Er enghraifft, nid oes angen i unigolyn sy'n darparu gwasanaeth cymorth mabwysiadu o dan gontract am wasanaethau gyda gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig (e.e. cymdeithas fabwysiadu gofrestredig neu asiantaeth cymorth mabwysiadu gofrestredig), neu wasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol, gofrestru fel gwasanaeth mabwysiadu. Fodd bynnag, os yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan bartneriaeth neu gorff corfforaethol, rhaid iddo gofrestru gydag AGC.

Efallai na fydd rhaid i gynghorydd gofrestru gydag AGC os nad materion mabwysiadu yw prif bwnc neu ffocws sesiwn gwnsela, er y byddai'n arfer da iddynt ofyn am gyngor ynghylch a yw'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu mewn gwirionedd yn gysylltiedig â mabwysiadu ac felly bod cofrestriad o dan y fframwaith deddfwriaethol yn ofynnol. Os nad oes eithriadau cymwys, mae'n drosedd gweithredu gwasanaeth mabwysiadu, sy'n cynnwys darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu, heb gofrestru.

**Pa newidiadau rydym yn eu cynnig?**

**Cynnig 1**

Rydym yn cynnig diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005 a Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 er mwyn ymestyn yr eithriad presennol rhag gorfod cofrestru ag AGC. Ar hyn o bryd, mae'r eithriad yn berthnasol i ddarparwyr unigol gwasanaethau cymorth mabwysiadu sydd o dan gontract gan wasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol. Byddai'r diwygiad arfaethedig yn ehangu'r eithriad i gynnwys partneriaethau neu gwmnïau a gomisiynwyd o dan drefniadau contractiol tebyg. Ni fyddai'n ofynnol i unrhyw ddarparwr sy'n darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu o dan gontract

gwasanaethau gydag un neu fwy o wasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol yn unig gofrestru gydag AGC.

Yn hanesyddol, roedd y gofyniad i ddarparwyr gwasanaethau cymorth mabwysiadu gofrestru gydag AGC yn cael ei ystyried fel mesur diogelu i ddefnyddwyr gwasanaethau, ynghyd â bod yn fesur i ddarparu sicrwydd i ddefnyddwyr gwasanaethau ynghylch ansawdd y gwasanaeth y gallant ei ddisgwyl.
Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn na fydd dileu'r gofyniad hwn yn y ffordd y caiff ei gynnig yn lleihau ansawdd y gwasanaeth nac yn peri risg i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i asiantaethau mabwysiadu gynnal asesiad o'u contractwyr i sicrhau eu bod yn addas i weithio at ddibenion asiantaeth, yn unol â'r fframwaith rheoleiddio. Mae rhai gwiriadau cyn cyflogi ar gontractwyr hefyd yn ofynnol ac yn cynnwys gwirio cofnodion troseddol, tystiolaeth o gymwysterau perthnasol, geirda ysgrifenedig, gwirio'r rheswm pam y daeth cyflogaeth i ben os oedd rolau blaenorol yn cynnwys dyletswyddau gyda phlant ac oedolion agored i niwed, a mwy. Mae hefyd yn ofynnol yn ôl y gyfraith i awdurdod lleol gynnal gwiriadau penodol ar gontractwyr sy'n gweithio gyda gwasanaeth mabwysiadu sy'n cyflawni swyddogaethau mabwysiadu awdurdodau lleol, sy'n ychwanegu haen bellach o amddiffyniad. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod asiantaethau mabwysiadu yn cynnal eu hasesiadau diogelu ac ansawdd eu hunain yn rheolaidd ar y darparwyr y maent yn eu contractio.

Gall y broses adolygu a gwneud penderfyniadau ar gyfer cofrestru ag AGC ymestyn hyd at 14 wythnos, er bod amgylchiadau penodol pob cais yn dylanwadu ar yr hyd. Byddai gwneud y newid hwn yn dileu'r gofyniad i gofrestru o dan rai amgylchiadau, gan hyrwyddo proses fwy effeithlon.

Bydd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cymorth mabwysiadu sy'n gweithredu y tu allan i gytundeb contractiol, fel y rhai a ariennir yn uniongyrchol gan rieni, gofrestru.

**Newid posibl pellach**

Er bod y newidiadau sy'n cael eu cynnig yn ymwneud ag eithrio partneriaethau a darparwyr gwasanaethau cymorth mabwysiadu cyrff corfforaethol, sy'n darparu'r gwasanaethau hynny o dan gontract gydag un neu fwy o wasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol yn unig, rhag cael eu trin fel gwasanaeth mabwysiadu yn ddarostyngedig i'r gofyniad i gofrestru o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, nid yw'r eithriad hwn yn berthnasol ar hyn o bryd i bartneriaethau a darparwyr gwasanaethau cymorth mabwysiadu cyrff corfforaethol, sy'n darparu'r gwasanaethau hynny o dan gontract gyda gwasanaeth mabwysiadu cofrestredig yn unig. Dim ond darparwyr unigol gwasanaethau cymorth mabwysiadu sydd wedi'u contractio gan wasanaeth mabwysiadu cofrestredig sydd wedi'u heithrio. Hoffai Llywodraeth Cymru ofyn am farn gan y sector ynghylch a ddylid ymestyn yr eithriad hwn ymhellach i gynnwys partneriaethau a chwmnïau hefyd fel y rhai sy'n darparu'r gwasanaethau hynny o dan gontract gyda gwasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol yn unig.

Yn ogystal, rydym wedi nodi gorgyffwrdd ac anghysondeb rhwng y ddwy restr o *wasanaethau cymorth mabwysiadu* rhagnodedig a nodir yn Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005 a Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019 a'r graddau y mae'r ddwy set hon o reoliadau yn gymwys i wasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol a'r gwasanaethau hynny a reoleiddir o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Mater technegol yw hwn nad yw'n effeithio ar y ffordd y mae'r rheoliadau'n cael eu cymhwyso'n ymarferol, ac nad yw'n effeithio ar yr uchelgeisiau polisi a nodir uchod. Byddwn yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r rheoliadau hyn yr un pryd â'r newidiadau rheoliadol eraill a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau eu bod yn gliriach, yn fwy cyson, ac yn haws eu cymhwyso'n ymarferol.

## Gwasanaethau cwnsela a therapiwtig sy'n gysylltiedig â mabwysiadu i oedolion: newidiadau rheoliadol arfaethedig

*Mae'r adran hon yn ymwneud â chwestiynau 6 i 9 yr ymgynghoriad.*

### Cynnig 2

Rydym yn cynnig eithrio cwnselwyr a seicotherapyddion o'r gofyniad i gofrestru gydag AGC lle maent yn darparu gwasanaethau cwnsela a therapiwtig sy'n gysylltiedig â mabwysiadu i oedolion 18 oed a hŷn. Byddai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu drwy ddiwygio Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 i fewnosod eithriad i'r perwyl hwn yn rheoliad 3.

Ni fydd gwasanaethau a ddarperir i oedolion o dan Reoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) 2005 yn rhan o'r eithriad.

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i wasanaethau cymorth mabwysiadu, gan gynnwys darparu gwasanaeth cwnsela sy'n gysylltiedig â mabwysiadu i oedolion, gofrestru gydag AGC. Daeth ymchwiliad y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol (JCHR) i faterion sy'n ymwneud â mabwysiadu hanesyddol ('The right to family life: adoption of children of unmarried women 1949-1976)) i'r casgliad bod y gofyniad i gofrestru yn gweithredu fel rhwystr i argaeledd cwnselwyr. Rydym yn poeni felly fod y gofyniad i gofrestru yn lleihau gallu oedolion sy'n ceisio cymorth sy'n gysylltiedig â mabwysiadu i gael gafael ar wasanaethau cwnsela a gwasanaethau cymorth eraill.

Yng Nghymru, mae cwnselwyr a therapyddion sy'n darparu gwasanaethau cwnsela a therapiwtig sy'n gysylltiedig â mabwysiadu i oedolyn, naill ai fel gwasanaeth a gynlluniwyd neu oherwydd bod mater sy'n gysylltiedig â mabwysiadu yn codi ei ben yn ddiweddarach yn ystod y cwnsela/therapi, yn cofrestru gydag AGC ar hyn o bryd fel asiantaeth cymorth mabwysiadu. Gall hyn gynnwys gwasanaethau gan ystod eang o ddarparwyr a chynnwys gwasanaethau i'r rhai sy'n cael eu mabwysiadu, rhieni geni a rhieni sy'n mabwysiadu.

Ar hyn o bryd, mae cwnselwyr a therapyddion yng Nghymru yn dilyn canllawiau Ofsted Lloegr, sy'n nodi'n glir na ddylai cwnselwyr a therapyddion ddarparu gwasanaeth i oedolyn os yw'r cwnsela'n canolbwyntio ar fabwysiadu, neu os oes thema sy'n gysylltiedig â mabwysiadu yn codi ei ben yn ddiweddarach yn ystod y cwnsela/therapi ac mai'r thema honno yw'r prif bryder neu ffocws, heb gofrestru fel asiantaeth/gwasanaeth cymorth mabwysiadu. Nid oes canllawiau cyfatebol o'r fath yn cael eu darparu gan AGC ar hyn o bryd. Mae'r diffyg eglurder i gwnselwyr a therapyddion sy'n ymarfer yng Nghymru yn arwain at ostyngiad yn nifer y gweithwyr proffesiynol sy'n cynnig gwasanaethau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu, gan leihau gallu cleientiaid i gael gafael ar wasanaethau cwnsela a chymorth therapiwtig. Mae canllawiau Ofsted bellach wedi'u diwygio i adlewyrchu'r diwygiadau rheoliadol gan Lywodraeth y DU yn 2023.

Weithiau, mae'n anodd nodi a fydd cwnsela'n canolbwyntio ar fabwysiadu cyn i'r gwasanaeth ddechrau. Os oes materion sy'n gysylltiedig â mabwysiadu yn cael eu datgelu yn ystod sesiynau cwnsela ac mai'r materion hyn yw'r prif bryderon neu ffocws, mae'r cwnselydd yn cael ei atal, o dan y fframwaith presennol, rhag parhau i weithio gyda'r cleient oni bai ei fod yn cofrestru gydag AGC, gan arwain at newid mawr ar adeg sydd eisoes yn anodd.

Enghraifft: Mae oedolyn mabwysiedig yn dechrau gweld therapydd/cwnselydd i ddelio â mater penodol (e.e. tor-perthynas). Os yw'r therapi'n datgelu bod cefndir mabwysiedig yr oedolyn yn broblem, efallai na fydd y therapydd yn teimlo y gall barhau â'r gwaith heb gofrestru gydag AGC.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig datgymhwyso Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 mewn perthynas â gwasanaethau cwnsela a therapiwtig i oedolion. Bydd hyn yn eithrio gwasanaethau cwnsela a ddarperir gan ystod o ddarparwyr ac yn cynnwys gwasanaethau i'r rhai sy'n cael eu mabwysiadu, rhieni geni a rhieni sy'n mabwysiadu. Os caiff hyn ei roi ar waith, ni fyddai'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cwnsela a therapiwtig sy'n gysylltiedig â mabwysiadu i oedolion gofrestru gydag AGC mwyach.

Mae nifer o oedolion yr effeithir arnynt gan fabwysiadu yng Nghymru yn wynebu heriau wrth geisio cael gafael ar wasanaethau cwnsela a therapiwtig oherwydd y nifer cyfyngedig o ddarparwyr sydd wedi cofrestru gydag AGC. Rhagwelir y bydd dileu'r gofyniad i gofrestru yn arwain at gynnydd yn nifer y darparwyr sy'n darparu'r gwasanaethau hyn, gan wella gallu oedolion yr effeithir arnynt gan fabwysiadu i gael y cymorth hanfodol sydd ei angen arnynt.

Bydd yr addasiad hwn yn caniatáu i oedolion ddewis darparwr sy'n cyd-fynd â'u hanghenion heb orfod penderfynu yn y lle cyntaf a fydd mabwysiadu yn destun trafod. Drwy ddileu'r rhagofyniad i gofrestru, rydym yn ceisio gwella argaeledd darparwyr gwasanaethau i oedolion, gan ei gwneud yn haws iddynt gael gafael ar gymorth hanfodol sy'n gysylltiedig â mabwysiadu.

Byddai gan unigolion yr opsiwn i ddewis o blith ystod ehangach o ddarparwyr sydd ar gael, gan wella mynediad at gynghorwyr a gweithwyr therapiwtig proffesiynol eraill ar gyfer y ddemograffig hwn. Ar ben hynny, byddai'r newid hwn yn lliniaru'r anawsterau sy'n wynebu therapyddion a chwnselwyr nad ydynt wedi cofrestru gydag AGC fel asiantaethau cymorth mabwysiadu pan fydd cleientiaid yn datgelu yn ddiweddarach y gallai eu heriau fod yn deillio o'u profiadau mabwysiadu. Os daw darparwyr yn ymwybodol eu bod yn darparu gwasanaethau rheoleiddiedig yn anfwriadol heb y cofrestriad angenrheidiol, mae'n bosibl y cânt eu hannog i beidio â parhau â'u cymorth oherwydd y fframwaith cyfreithiol amwys. Bydd rhoi'r cynnig hwn ar waith yn hyrwyddo parhad cymorth mewn achosion lle daw materion sy'n gysylltiedig â mabwysiadu i'r fei.

Gall y broses adolygu a gwneud penderfyniadau ar gyfer cofrestru gydag AGC ymestyn hyd at 14 wythnos, er y bydd amgylchiadau penodol pob cais yn dylanwadu ar yr hyd. Byddai gwneud y newid hwn yn dileu'r gofyniad i gofrestru, gan hyrwyddo proses fwy effeithlon.

Byddai dileu'r gofyniad i gofrestru gydag AGC hefyd yn caniatáu i oedolion mabwysiedig gael gafael ar wasanaethau cwnsela mewn ffordd debyg i oedolion eraill yn y boblogaeth gyffredinol. Bydd darparwyr gwasanaethau yn cadw at brotocolau cofrestru a hyfforddi proffesiynol safonol, ac ni fydd angen iddynt gyflwyno cais ar wahân ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau sydd â hanes mabwysiadu.

## Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu o ran Mabwysiadu – newidiadau rheoliadol arfaethedig

*Mae'r adran hon yn ymwneud â chwestiynau 10 i 13 yr ymgynghoriad*

### Cynnig 3

Nid yw [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Cod Ymarfer Rhan 6] ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya yn mynd i'r afael â'r cynllun gofal ar gyfer mabwysiadu mewn llawer o fanylder, ac mae rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw'n darparu digon o fanylion i gefnogi gweithwyr cymdeithasol gofal plant yn effeithiol lle mae cynllun gofal plentyn ar gyfer mabwysiadu. Felly, rydym yn cynnig y dylid diwygio'r Cod Rhan 6 i nodi'n glir, pan fydd gan blentyn gynllun gofal ar gyfer mabwysiadu neu pan fydd plentyn yn cael ei ystyried ar gyfer gwasanaethau cymorth ar ôl ei fabwysiadu, y dylid cymhwyso egwyddorion [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014] mewn perthynas â chynllunio gofal, lleoli ac adolygu achosion ochr yn ochr â'r gofynion o fewn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 a'i rheoliadau cysylltiedig.

Bydd y diwygiadau arfaethedig i'r Cod Rhan 6 yn egluro rôl y gwahanol gynlluniau gofal ar gyfer mabwysiadu - y berthynas waith rhwng cynllun gofal a chymorth Rhan 6 y plentyn, y cynllun cymorth mabwysiadu sy'n esblygu a'r angen posibl am gynllun gofal a chymorth Rhan 4 unwaith y bydd y gorchymyn mabwysiadu wedi'i roi – drwy gyfeirio at y fframwaith rheoleiddio sy'n berthnasol unwaith y bydd gorchymyn lleoli

wedi'i roi ac unwaith y bydd y plentyn wedi ei osod i'w fabwysiadu. Bydd hyn yn cynnwys cyfeiriad at y canlynol:

- Mae **Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015** **(Rheoliadau 2015)** yn nodi'r gofynion ar awdurdodau lleol ar gyfer cynllunio ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac ar gyfer adolygu eu hachosion pan fyddant yn ddarostyngedig i orchymyn lleoli. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau hyn yn peidio â bod yn gymwys unwaith y bydd y plentyn wedi ei osod i'w fabwysiadu o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

- Mae **Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005** **a'r canllawiau statudol cysylltiedig** yn gymwys yn lle Rheoliadau 2015 mewn perthynas ag ymweliadau ac adolygiadau. Mae'r newid hwn yn drysu ymarferwyr yn aml a bydd y Cod Ymarfer Rhan 6 diwygiedig yn gwneud hyn yn glir.

- Mae **Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn darparu'r fframwaith ar gyfer cynllun gofal a chymorth plant sy'n derbyn gofal. Wrth gynllunio ar gyfer plentyn lle mae'r cynllun gofal ar gyfer mabwysiadu, bydd angen ystyried cynllun gofal a chymorth Rhan 6 wrth ddatblygu'r cynllun cymorth mabwysiadu.

- Mae **Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005 a'r canllawiau statudol cysylltiedig** yn nodi'r ddarpariaeth ar gyfer cymorth mabwysiadu, a bydd gwybodaeth yn y cynllun gofal a chymorth Rhan 6 yn llywio dechrau'r cynllun cymorth mabwysiadu ar gyfer y plentyn. Bydd cysylltiad yn cael ei wneud rhwng y ddau fframwaith.

- O dan rai amgylchiadau, bydd anghenion y plentyn yn mynd y tu hwnt i'r hyn y gellir ei ddarparu gan wasanaeth cymorth mabwysiadu, felly efallai y bydd angen **cynllun gofal a chymorth Rhan 4** ochr yn ochr â'r cynllun cymorth mabwysiadu. Yn yr achosion hyn, mae **Rhannau 3 a 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn gymwys**.** Bydd hyn yn cael ei nodi'n glir yn y Cod Ymarfer Rhan 6 hefyd.

Bydd y newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer Rhan 6 hefyd yn cynorthwyo gweithiwr cymdeithasol yr awdurdod lleol, wrth weithio ar gynllun gofal ar gyfer mabwysiadu, drwy uno'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r canllawiau statudol, ochr yn ochr â'r canllawiau arfer da presennol.

Bydd y newidiadau hefyd yn atgoffa'r swyddog adolygu annibynnol o'r fframwaith rheoleiddio sy'n berthnasol:

- wrth wneud gorchymyn lleoli ac
- ar ôl i'r plentyn gael ei osod i'w fabwysiadu.

Yn fwy penodol, bydd y newidiadau arfaethedig pellach hyn i'r Cod Ymarfer Rhan 6 yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- Pwysigrwydd cynadleddau / cyfarfodydd grŵp teulu yn gynnar yn y broses cyn trafodion yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

- Cynnwys cyfeiriad yn y Cod Ymarfer Rhan 6 at Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru (WEP) a lansiwyd ym mis Mai 2022. Mae'r fframwaith hwn yn rhoi sylfaen ddiogel i blentyn cyn gynted â phosibl ar ôl iddo ymuno â'r system ofal, gan osod plant gyda gofalwyr maeth sydd hefyd wedi'u cymeradwyo fel darpar rieni sy'n mabwysiadu. Bydd y gofalwr WEP yn cefnogi'r plentyn yn yr un modd â gofalwyr maeth prif ffrwd eraill, gan ymgymryd â'r holl dasgau maethu, gan gynnwys hwyluso cyswllt. Os bydd cynllun gofal y plentyn yn dod yn gynllun ar gyfer mabwysiadu, mae gan ofalwyr WEP y gallu i fynd ymlaen i gynnig cartref parhaol i'r plentyn hwnnw. Mae'r fframwaith hwn yn cynnig y modd i leihau nifer y newidiadau lleoliad a all achosi trawma pellach i blentyn sy'n agored i niwed.

- Cyfeiriad at y pedwar canllaw arfer da sydd i'w gweld ar wefan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, sy'n ymwneud â:
  - Gweithio gyda rhieni geni
  - Pontio a chymorth cynnar
  - Cyswllt/cadw mewn cysylltiad
  - Cymorth mabwysiadu

## MAETHU

### Asesu gofalwyr sy'n berthnasau a chymorth ar gyfer lleoliadau gyda pherthnasau: newidiadau rheoliadol arfaethedig

*Mae'r adran hon yn ymwneud â chwestiynau 14 i 17 yr ymgynghoriad.*

### Cynnig 4

Cydnabuwyd nad yw'r fframwaith cyfreithiol presennol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ofalwyr maeth sy'n berthynas gyrraedd yr un safon o addasrwydd i faethu â gofalwyr prif ffrwd, yn gweithio'n effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod y rhai sy'n asesu darpar ofalwyr sy'n berthynas, y gofalwyr eu hunain, yn ogystal â phaneli maethu a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, yn cael trafferth gyda'r disgwyliad o'r un safon o addasrwydd i berson, sy'n aml yn gorfod dod yn ofalwr yn ystod argyfwng teuluol, â gofalwr prif ffrwd sydd wedi ystyried yn ofalus y cynllun ar gyfer ymgymryd â'r rôl maethu.

Felly, rydym yn bwriadu gwneud newidiadau i Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018 i gyflwyno mwy o hyblygrwydd i'r broses asesu/gymeradwyo. Felly yn ogystal â chydnabod bod y plentyn yn derbyn gofal a bod y gofalwr yn ofalwr cymeradwy, eu bod yn adlewyrchu bod hwn yn lleoliad o fewn teulu, yn aml yn seiliedig ar berthynas deuluol sy'n bodoli eisoes.

Bydd y newidiadau arfaethedig hyn yn cadw gofalwyr sy'n berthynas o fewn y fframwaith rheoleiddio ar gyfer maethu (h.y. byddant yn cael eu hasesu, eu cymeradwyo a'u cefnogi fel gofalwyr maeth), ond bydd y rheoliadau'n cael eu diwygio i greu categori 'gofalwr maeth sy'n berthynas' ar wahân i ofalwr maeth prif ffrwd. Bydd hyn yn caniatáu mwy o ddisgresiwn; Er enghraifft, bydd y cysyniad o 'addasrwydd' yn cynnwys ystyriaethau ychwanegol ac yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn neu'r plant penodol y mae'r gofalwr maeth sy'n berthynas yn cael ei asesu ar eu cyfer.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymateb i'r beirniadaethau a fynegir gan bobl ifanc a gofalwyr sy'n berthynas bod 'grym llawn' y system derbyn gofal yn anghymesur ar gyfer lleoliadau maeth gofal gan berthynas sefydlog yn yr hirdymor. Mae hefyd yn cyd-fynd â nifer o egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n gysylltiedig â system a arweinir gan unigolyn yn hytrach na gwasanaeth.

Rhagwelir y bydd y gwelliannau'n creu fframwaith llawer mwy effeithiol ac addas i'r diben ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthynas, gan barhau i ddarparu'r diogelwch sydd ei angen ar y plentyn a'r diogelwch sydd ei angen ar y gofalwr o ran bod yn ofalwr maeth. Bydd paneli a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn gallu mabwysiadu ymagwedd fwy hyblyg at 'addasrwydd' a bydd modd iddynt ystyried meysydd sy'n berthnasol i drefniant gofal gan berthynas yn unig.

Bydd y gofalwr sy'n berthynas yn parhau i fod yn ofalwr maeth gyda'r holl gymorth ariannol ac ymarferol sy'n gysylltiedig â'r statws, ac er bod y plentyn yn parhau i dderbyn gofal, bydd hyblygrwydd o ran ymweliadau ac adolygiadau gwaith

cymdeithasol. Bydd hyn yn ei dro yn creu hyblygrwydd i'r plentyn, yn enwedig wrth iddo dyfu'n hŷn ac os yw'n teimlo'n ansicr ynglŷn â'r ffaith bod ganddo statws Plentyn sy'n Derbyn Gofal. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn cael ei deilwra i fodloni gofynion unigryw y plentyn a'r teulu. Er enghraifft, gall asesiadau ac ymweliadau ddigwydd yn fwy rheolaidd pan ystyrir eu bod yn hanfodol i deuluoedd ag anghenion mwy cymhleth, a gallant fod yn llai aml mewn sefyllfaoedd lle nad oes angen llawer o ymyrraeth.

Mae'r gwelliannau penodol sy'n cael eu hystyried yn ymwneud â'r ffordd mae asesiad yn cael ei gynnal, a'r ffordd mae'r panel a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn ystyried y cais.

Mae nifer o faterion y mae angen i banel a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau eu hystyried, naill ai'n wahanol neu'n ychwanegol, wrth ystyried cais gofalwr sy'n berthynas.

O fewn Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018, mae Rheoliad 7 yn nodi'r gofynion mewn perthynas ag asesu darpar rieni maeth. Mae'r rheoliadau hyn yn cyflwyno proses dau gam ar gyfer asesu gofalwyr maeth yng Nghymru.

Mae Atodlen 1 (Rhannau 1 a 2) yn cynnwys yr wybodaeth sydd angen ei chael mewn perthynas â darpar rieni maeth ac aelodau eraill o'u haelwyd a'u teulu.

Mae Rheoliad 7(5)(a) yn ei gwneud yn ofynnol, o dan gam 2, i'r awdurdod cyfrifol gael yr wybodaeth a bennir yn Rhan Dau o Atodlen 1…. *'ac unrhyw wybodaeth arall yr ystyrir ei bod yn berthnasol'.*

Cynigir ychwanegu Rhan 3 at Atodlen 1 ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthynas yn unig. Ni fydd Rhan 2 yn berthnasol i'r gofalwyr hyn mwyach. Fodd bynnag, bydd y Rhan 3 newydd yn cwmpasu'r gofynion hynny yn Rhan 2 yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer gofalwyr maeth prif ffrwd a gofalwyr maeth sy'n berthynas. Mae'r ymarfer ymgynghori hwn yn gofyn am adborth ar ba ofynion, os o gwbl, a amlinellir yn Rhan 2, y dylid eu hailadrodd yn y Rhan 3 newydd.

Mae'r gofynion yn Rhan 2 yn cynnwys:

- Manylion personoliaeth
- Argyhoeddiad crefyddol, a'r gallu i ofalu am blentyn o unrhyw argyhoeddiad crefyddol penodol.
- Tarddiad hiliol, cefndir diwylliannol ac ieithyddol a'r gallu i ofalu am blentyn o unrhyw darddiad hiliol penodol neu o unrhyw gefndir diwylliannol neu ieithyddol.
- Y gallu i ddarparu cymorth i blentyn mewn perthynas â'i gyfeiriadedd rhywiol a'i hunaniaeth rhywedd.
- Cyflogaeth neu alwedigaeth flaenorol neu bresennol, safon byw, gweithgareddau hamdden a diddordebau.
- Profiad blaenorol (os o gwbl) o ofalu am eu plant eu hunain a phlant eraill.
- Sgil, cymhwysedd a photensial sy'n berthnasol i'w gallu i ofalu'n effeithiol am blentyn sy'n cael ei leoli gyda nhw.

Cynigir y bydd y meysydd canlynol yn cael eu cynnwys mewn Rhan 3 newydd. Mae'r rhain yn ofynion y mae ymarferwyr yng Nghymru yn eu hystyried yn berthnasol i ofalwyr maeth sy'n berthynas:

- Manylion personoliaeth, argyhoeddiad crefyddol, tarddiad hiliol, a chefndir diwylliannol ac ieithyddol.

- Manylion eu cysylltiad presennol neu flaenorol â'r awdurdod lleol.

- Manylion dynameg teuluol, gan gynnwys perthnasoedd o fewn yr aelwyd, gyda theulu estynedig a phersonau cysylltiedig eraill.

- Sgiliau, cymhwysedd a photensial sy'n berthnasol i'w gallu i ofalu'n effeithiol am y plentyn a enwir a diwallu ei anghenion presennol a/neu ei anghenion tebygol yn y dyfodol.

- Y gallu i amddiffyn a hyrwyddo diogelwch a llesiant y plentyn a enwir yng nghyd-destun dynameg teuluol a chysylltiad presennol neu flaenorol â'r awdurdod lleol.

- Ffordd o fyw ac ymrwymiadau presennol, gan gynnwys cyflogaeth, llety, gweithgareddau hamdden, diddordebau a chyfrifoldebau gofalu sy'n berthnasol i'w gallu i ofalu'n effeithiol am y plentyn.

- Manylion unrhyw gymorth neu ymyrraeth sy'n angenrheidiol i ofalu'n effeithiol am y plentyn a enwir a/neu liniaru unrhyw risg a nodwyd.

- Y gallu i gydweithredu ag unrhyw gymorth neu ymyrraeth a ystyrir yn angenrheidiol.

Yn ymarferol, bydd y newid hwn yn golygu y bydd gofalwyr maeth prif ffrwd yn cael eu hasesu yn erbyn Rhannau 1 a 2 o Atodlen 1, ac y bydd gofalwyr maeth sy'n berthynas yn cael eu hasesu yn erbyn Rhannau 1 a 3.

**Dull mwy hyblyg o ymdrin â chynllunio gofal, lleoli ac adolygu achosion ar gyfer trefniadau â pherthnasau**

*Mae'r adran hon yn ymwneud â chwestiynau 18 i 19 yr ymgynghoriad*

**Cynnig 5**

Rydym yn cynnig y dylid newid y gofynion presennol ar gyfer adolygiadau ac ymweliadau yn Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 er mwyn gallu ymateb mewn ffordd fwy hyblyg i ddiwallu anghenion y plentyn a'r gofalwr maeth sy'n berthynas.

Byddai'r ddau newid arfaethedig isod, sy'n ymwneud â threfniadau adolygu ac ymweld, yn berthnasol ar ôl cymeradwyaeth lawn fel gofalwyr maeth sy'n berthynas yn unig. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw un o'r darpariaethau a nodir yn rheoliad 26

o Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 sy'n gysylltiedig  â chymeradwyo person fel rhiant maeth awdurdod lleol am gyfnod dros dro (cymeradwyaeth dros dro) nad yw'n hwy na 24 wythnos.

Adolygiadau

Ar hyn o bryd, mae Rheoliad 39 o Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 yn nodi'r canlynol:

(1) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol adolygu achos y plentyn am y tro cyntaf o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y dechreuodd y plentyn dderbyn gofal.

(2) Rhaid cynnal yr ail adolygiad ar ôl ysbaid o ddim mwy na thri mis ar ôl y cyntaf, a rhaid cynnal adolygiadau dilynol fesul ysbaid o ddim mwy na 6 mis

Cynigir y dylid gwneud diwygiad i ddarparu, ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthynas, fod rhaid i'r ail adolygiad gael ei gynnal ar ôl ysbaid o ddim mwy na thri mis ar ôl y cyntaf, a bod rhaid cynnal adolygiadau dilynol fesul ysbaid o ddim mwy na 12 mis, yn hytrach na chwe mis.

Bydd yr amseriad ar gyfer yr adolygiad dilynol yn cael ei benderfynu yn ystod yr adolygiad ei hun, gan ddileu'r angen am unrhyw gyfarfodydd pellach. Bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn gwneud cyfraniad hanfodol wrth benderfynu ar yr amseriad priodol ar gyfer yr adolygiad nesaf ym mhob achos penodol, gan sicrhau goruchwyliaeth annibynnol, sy'n elfen annatod o'u cyfrifoldebau. Bydd y penderfyniad hwn yn adlewyrchu anghenion unigol y plentyn a'r teulu dan sylw.

Ymweliadau

Mae rheoliad 31 o Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 yn amlinellu bod rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod rhywun yn ymweld â phlentyn o dan ei ofal:

(a) o fewn un wythnos ar ôl dechrau unrhyw leoliad,

(b) fesul ysbaid o ddim mwy na 6 wythnos yn ystod blwyddyn gyntaf unrhyw leoliad, ac

(c) wedi hynny—

(i) os bwriedir i'r lleoliad barhau hyd nes bod y plentyn yn 18 oed, fesul ysbaid o ddim mwy na 3 mis, a

(ii) mewn unrhyw achos arall, fesul ysbaid o ddim mwy na 6 wythnos.

Y bwriad yw y bydd is-gymal ychwanegol yn cael ei gynnwys ar gyfer gofalwyr sy'n berthynas, a fydd yn galluogi'r awdurdod cyfrifol, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol, gofalwyr maeth, rhieni a'r plentyn, i benderfynu ar amlder ymweliadau, fesul ysbaid o ddim mwy na 6 mis. Bydd y penderfyniad hwn yn adlewyrchu anghenion unigol y plentyn a'r teulu dan sylw a gallai arwain at ymweliadau amlach os ystyrir bod hynny'n briodol.

**Proses fwy effeithiol ac effeithlon ar gyfer trosglwyddo gofalwyr maeth rhwng darparwyr gwasanaethau maethu – newidiadau rheoliadol arfaethedig**

*Mae'r adran hon yn ymwneud â chwestiynau 20 i 22 yr ymgynghoriad*

**Cynnig 6**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, pan fydd gofalwr maeth yn trosglwyddo o un darparwr i'r llall, y gall heriau godi ynghylch faint o wybodaeth a ddatgelwyd gan y darparwr gofal maeth blaenorol, prydlondeb trosglwyddo'r wybodaeth hon, a'r arfer mewn rhai achosion o osod ffioedd ar y gwasanaeth maethu newydd am gael gafael ar yr wybodaeth hon. Er mwyn gwella'r broses o ddiogelu plant a phobl ifanc mewn gofal maeth, rydym yn ystyried diwygiadau deddfwriaethol i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses.

Bydd y newidiadau hyn yn cyflwyno elfennau o'r canllawiau arfer da a nodir o fewn Protocol Trosglwyddo Cymru o fewn fframwaith deddfwriaethol.

Y bwriad yw y bydd Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018 yn cael eu diwygio i nodi'n benodol y gall darparwr gwasanaethau maethu, gyda chydsyniad yr unigolyn a gymeradwywyd fel rhiant maeth gan ddarparwr gwasanaethau maethu gwahanol, wneud cais ffurfiol yn ysgrifenedig am fynediad at gofnodion perthnasol, gan gynnwys yr adroddiad asesu, adroddiad yr adolygiad diweddaraf o gymeradwyaeth ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall a baratowyd gan y darparwr gwasanaethau maethu arall ynglŷn â'r unigolyn hwnnw.

Ar ôl derbyn cais, yn unol â'r darpariaethau a bennir yn rheoliad 7(2), bydd yn ofynnol i'r darparwr gwasanaethau maethu arall ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani o fewn 15 diwrnod gwaith, heb unrhyw gost i'r darparwr gwasanaeth maethu.

Bydd geiriad yn cael ei gynnwys fel rhan o'r newidiadau i sicrhau nad yw'r Darparwyr Gwasanaeth Maethu yn cael eu rhoi o dan rwymedigaeth yn y rheoliadau i rannu gwybodaeth sy'n groes i'w dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth arall fel GDPR.

Bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi i gefnogi'r sector gyda'r newidiadau arfaethedig.

**Cael mynediad at y lwfans maethu uwch (ffi)**

*Mae'r adran hon yn ymwneud â chwestiynau 23 i 25 yr ymgynghoriad*

**Cynnig 7**

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig newidiadau i'r Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i esbonio'n well sut y gall gwahanol fathau o ofalwyr maeth gael y lwfans maethu uwch.

Bydd paragraffau ychwanegol yn cael eu hychwanegu at y penodau ar ofalwyr maeth prif ffrwd a gofalwyr maeth sy'n berthynas sy'n nodi'r canlynol:

Gofalwyr maeth prif ffrwd:

- Bydd gofalwyr maeth sydd wedi'u cymeradwyo'n llawn yn cael y lwfans plant sylfaenol yn unol â'r Isafswm Lwfans Maethu Cenedlaethol a bennir ar gyfer Cymru
- Bydd gofalwyr maeth sydd wedi'u cymeradwyo'n llawn yn gallu cael eu hasesu yn erbyn meini prawf cymhwystra yr awdurdod lleol ar gyfer lwfans uwch
- Gall cyfradd y lwfans maethu uwch amrywio rhwng awdurdodau lleol
- Rhaid i feini prawf cymhwystra pob awdurdod lleol fod yn gysylltiedig â'r dasg faethu ar gyfer yr ystod o blant y gallai fod angen i'r awdurdod lleol eu gosod gyda'r gofalwr maeth, o fewn eu telerau cymeradwyo
- Dylai meini prawf cymhwystra pob awdurdod lleol gael eu nodi'n glir i'r gofalwr maeth a chael eu trafod ar ôl ei gymeradwyo

Gofalwyr maeth sy'n berthynas sydd wedi'u cymeradwyo'n llawn

- Bydd gofalwyr maeth sy'n berthynas sydd wedi'u cymeradwyo'n llawn yn cael y lwfans sylfaenol yn unol â'r Isafswm Lwfans Maethu Cenedlaethol a bennir ar gyfer Cymru
- Bydd gofalwyr maeth sy'n berthynas sydd wedi'u cymeradwyo'n llawn yn gallu cael eu hasesu yn erbyn meini prawf cymhwystra yr awdurdod lleol ar gyfer lwfans maethu uwch
- Gall cyfradd y lwfans uwch amrywio rhwng awdurdodau lleol
- Rhaid i feini prawf cymhwystra pob awdurdod lleol fod yn gysylltiedig â'r dasg faethu mewn perthynas â'r plentyn/plant y mae'r gofalwr maeth sy'n berthynas wedi'i gymeradwyo ar eu cyfer
- Dylai meini prawf cymhwystra pob awdurdod lleol gael eu nodi'n glir i'r gofalwr maeth sy'n berthynas a'u trafod ar ôl ei gymeradwyo

Gofalwyr maeth sydd wedi'u cymeradwyo dros dro o dan reoliad 26 o Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015

Ar gyfer gofalwyr maeth sydd wedi'u cymeradwyo dros dro, cynigir ychwanegu paragraff ychwanegol at y Cod Ymarfer Rhan 6 a fydd yn nodi'r canlynol:

- Bydd gofalwyr maeth sy'n berthynas sydd wedi'u cymeradwyo dros dro yn cael y lwfans sylfaenol yn unol â'r Isafswm Lwfans Maethu Cenedlaethol a bennir ar gyfer Cymru
- O dan amgylchiadau unigol, efallai y bydd modd asesu gofalwyr maeth sy'n berthynas sydd wedi'u cymeradwyo dros dro yn erbyn meini prawf cymhwystra yr awdurdod lleol ar gyfer lwfans uwch
- Gall cyfradd y lwfans uwch amrywio rhwng awdurdodau lleol
- Rhaid i feini prawf cymhwystra pob awdurdod lleol fod yn gysylltiedig â'r dasg faethu mewn perthynas â'r plentyn/plant mae'r gofalwr maeth sy'n berthynas sydd wedi'i gymeradwyo dros dro wedi'i gymeradwyo dros dro ar eu cyfer

- Dylai meini prawf cymhwystra pob awdurdod lleol gael eu nodi'n glir i'r gofalwr maeth sy'n berthynas sydd wedi'i gymeradwyo dros dro a'u trafod ar ôl ei gymeradwyo dros dro o dan reoliad 26

Gellir gwneud diwygiadau pellach i'r Cod Ymarfer lle bo angen i adlewyrchu'r newidiadau a gynigir uchod, gan gynnwys, er enghraifft, i baragraff 164.

**Y Mecanwaith Adolygu Annibynnol - newidiadau rheoliadol arfaethedig**

*Mae'r adran hon yn ymwneud â chwestiynau 26 i 27 yr ymgynghoriad*

**Cynnig 8**

Y Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) yw'r broses lle gall darpar ofalwr maeth neu ofalwr maeth sydd wedi'i gymeradwyo, neu ddarpar fabwysiadwr, ofyn am gael adolygiad o benderfyniad neu 'ddyfarniad o gymhwystra' a wnaed gan wasanaeth maethu neu fabwysiadu. Gallai hyn fod yn benderfyniad i beidio â chymeradwyo darpar ofalwr maeth neu fabwysiadwr, terfynu cymeradwyaeth fel gofalwr maeth, neu newid telerau cymeradwyaeth.

Mae'r broses IRM wedi'i nodi yn Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, ar ôl cael cais i adolygu penderfyniad, sefydlu panel; a nodi aelodaeth a swyddogaethau'r panel adolygu, a'r amserlen i'w dilyn. Sefydlwyd yr IRM yn 2010 i gyflawni'r swyddogaeth hon ar ran Gweinidogion Cymru a sicrhau annibyniaeth weithredol.

Cyflwynodd Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018 y broses asesu dau gam ar gyfer cymeradwyo fel gofalwr maeth a'r cysyniad o'r 'adroddiad byr’. Mae hyn yn caniatáu i ddarparwr gwasanaeth maethu baratoi adroddiad os daw gwybodaeth i law yn ystod yr asesiad sy'n ei gwneud yn annhebygol y bydd yr ymgeisydd yn cael ei ystyried yn addas i ddod yn ofalwr maeth, hyd yn oed os nad yw'r asesiad wedi'i gwblhau – gelwir hyn yn 'adroddiad byr'. Os argymhellir nad yw'r ymgeisydd yn addas i fod yn rhiant maeth, gall y darparwr gwasanaeth maethu gyflwyno penderfyniad i'r ymgeisydd sy'n ei hysbysu bod y gwasanaeth maethu yn cynnig na ddylid ei gymeradwyo fel gofalwr maeth, gan gynghori'r ymgeisydd y gall wneud sylwadau pellach neu wneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad gan y panel annibynnol.

Mae Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 yn rhagddyddio cyflwyno'r adroddiad byr i baneli maethu ac mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol y gallai fod problemau posibl os bydd ymgeisydd yn gwneud cais drwy'r IRM ar ôl cael adroddiad byr. Mae hyn oherwydd nad oes darpariaeth o fewn Rheoliadau 2010 ar hyn o bryd i alluogi'r panel annibynnol i ofyn am i asesiad llawn gael ei gwblhau o hyd ar ôl adroddiad byr. Felly, ni fydd y panel yn gallu argymell cymeradwyaeth fel rhiant maeth oherwydd na fydd yr asesiad llawn wedi'i gwblhau ac, o ganlyniad, dim ond argymell nad yw'r ymgeisydd yn addas i fod yn rhiant maeth y gall ei wneud. Felly, nid yw hawl ymgeisydd i ofyn am adolygiad o ddyfarniad o gymhwystra y darparwr gwasanaeth maethu yn cael unrhyw effaith

ymarferol pan fo'r gwasanaeth yn cynnig gwrthod cymeradwyaeth ar ôl adroddiad byr.

Felly, rydym yn bwriadu gwneud y newidiadau angenrheidiol i Reoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 er mwyn galluogi'r panel annibynnol i wneud argymhelliad i baratoi adroddiad llawn os oes angen, ar ôl cyhoeddi adroddiad byr.

Er mwyn gwneud y newid hwn, rydym yn cynnig dirymu ac ail-wneud Rheoliadau 2010. Mae'r weithred hon yn briodol oherwydd bod Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010") wedi'u gwneud o dan bwerau yn:

- Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002, ar gyfer penderfyniadau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu, a
- Deddf Plant 1989, ar gyfer darpariaethau sy'n ymwneud ag adolygiadau o benderfyniadau sy'n gysylltiedig â maethu.

Mae'r darpariaethau maethu a amlinellwyd yn flaenorol yn Neddf Plant 1989 wedi'u datgymhwyso a'u hail-wneud ar gyfer Cymru drwy adrannau 87 a 93 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Serch hynny, mae Rheoliadau 2010 yn dal i fod yn berthnasol. Mae hyn oherwydd bod adran 17 o Ddeddf Dehongli 1978 yn darparu, os bydd cyfraith yn cael ei diddymu ac yna'n cael ei disodli, y bydd unrhyw reoliadau a wneir o dan yr hen gyfraith yn dal i fod yn berthnasol fel pe baent yn cael eu gwneud o dan y gyfraith newydd—cyn belled â bod y prif bwerau yn dal yno ac nad yw'r rheoliadau'n gwrthdaro â'r gyfraith newydd.

Bydd ail-wneud y Rheoliadau yn gwella eglurder a hygyrchedd cyfreithiol, gan olygu y gall y darllenydd weld yr holl bwerau galluogi perthnasol mewn un lle, o fewn rhaglith y Rheoliadau newydd, heb yr angen i:

- olrhain hanes deddfwriaethol diddymiadau ac ail-ddeddfiadau mewn perthynas â Chymru,
- deall goblygiadau adran 17 o Ddeddf Dehongli 1978, neu
- troi at ddogfennau lluosog i nodi'r sail gyfreithiol gyfredol.

Fel rhan o'r gwaith o ail-wneud y Rheoliadau, rydym yn manteisio ar y cyfle i gywiro cyfeiriadau sydd wedi dyddio a gwella eglurder cyfreithiol ac i wneud nifer o newidiadau bach ond pwysig i sicrhau bod y Rheoliadau'n fwy clir, yn fwy cyson ac yn haws i'w rhoi ar waith yn ymarferol.

Fel rhan o ddiweddariad 2025 i'r Rheoliadau, bydd newid bach yn cae ei wneud i egluro sut y dylai paneli fynd i'r afael â buddiannau unigolion yr effeithir arnynt gan benderfyniadau datgelu. Lles plentyn wedi'i fabwysiadu yw'r ystyriaeth bennaf o hyd, fel ag o'r blaen, ond bydd y rheoliadau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i baneli ystyried effaith datgeliad ar unrhyw berson arall a allai gael ei effeithio gan y datgeliad. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu sut mae llysoedd eisoes yn mynd i'r afael â materion tebyg o fewn achosion gofal plant ac yn sicrhau proses deg a chytbwys.

Roedd y Rheoliadau blaenorol yn cynnwys darpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru weinyddu'r panel adolygu a threfnu cymorth clercio. Bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei dileu gan fod gan Weinidogion Cymru y cyfrifoldeb hwn eisoes o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Roedd ei ailadrodd yn y rheoliadau yn ddiangen, felly bydd yn cael ei hepgor.

Rydym hefyd yn dileu'r gofyniad i gofnodion gael eu cadw "mewn amodau diogelwch priodol." Mae hyn oherwydd bod deddfau diogelu data (fel Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR y DU) eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gadw data personol yn ddiogel. Mae dileu'r ddarpariaeth hon yn osgoi dyblygu.

Yn flaenorol, dim ond penderfyniadau addasrwydd mabwysiadu oedd â dyddiad terfyn clir (40 diwrnod gwaith) ar gyfer gofyn am adolygiad. Nid oedd dyddiad terfyn cyfatebol ar gyfer penderfyniadau maethu neu ddatgelu, a oedd yn creu ansicrwydd. Bydd y Rheoliadau newydd yn cymhwyso'r un dyddiad terfyn o 40 diwrnod gwaith i bob math o ddyfarniadau o gymhwystra, gan sicrhau cysondeb ac eglurder i bawb.

### Cyflwyno Cofrestr o Ofalwyr Maeth yng Nghymru

*Mae'r adran hon yn ymwneud â chwestiynau 28 i 31 yr ymgynghoriad*

Amlinellodd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, argymhelliad i Lywodraeth Cymru ariannu a darparu cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth, i'w chadw'n ganolog gan gorff annibynnol. Awgrymwyd y gallai'r gofrestr nodi manylion fel statws cymeradwyaeth gofalwyr maeth, dyddiad adolygu'r gymeradwyaeth, lleoliad yr awdurdod lleol, nifer y lleoliadau ac a ydynt yn ofalwyr maeth awdurdod lleol neu ofalwyr maeth darparwr annibynnol.

Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, ymrwymodd y cyn-Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnal ymarfer cwmpasu i sefydlu sut y gallai cofrestr genedlaethol edrych yng Nghymru, unrhyw ofynion deddfwriaethol a dichonoldeb gweithredol.

Ystyrir y gallai cyflwyno cofrestr o ofalwyr maeth yng Nghymru:

a) gynyddu statws gofalwyr maeth yn y tîm o amgylch y plentyn, gan ganiatáu i'r rôl gael ei chydnabod a'i gwerthfawrogi i raddau helaeth yn y sector a chan y cyhoedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gofalwyr maeth yn rhan bwysig o'r tîm gofal cymdeithasol sy'n cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc.

b) mynd i'r afael â'r anhawster mae gofalwyr maeth yn ei brofi wrth symud o un gwasanaeth i'r llall, drwy alluogi gwasanaeth maeth 'newydd' gofalwr maeth i gynnal gwiriad syml o'i statws cymeradwyaeth. Gallai hyn gynnig dull llai biwrocrataidd o drosglwyddo, lleihau dyblygu ac oedi.

c) cynnig mesurau diogelu cadarn, drwy alluogi gwasanaethau maethu i sefydlu a yw darpar ofalwr wedi cael ei gymeradwyo yn y gorffennol.

d) creu mwy o dryloywder mewn perthynas â nifer yr aelwydydd, lleoliad ac argaeledd lleoliadau i blant ar draws y sector cyfan; darparu data

cenedlaethol a chefnogi rhagolygon o ran y galw am ofalwyr maeth a chyflenwad gofalwyr maeth.

Fel rhan o'r gwaith hwn, hoffai Llywodraeth Cymru gydweithio â'r sector i gael mewnwelediad gwerthfawr ar sut y gallai cyflwyno cofrestr weithio yn ymarferol, ei manteision ac unrhyw anfanteision.

**Noder**: nid ydym yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau deddfwriaethol arfaethedig i gefnogi'r cynnig hwn ar hyn o bryd.

# GWARCHEIDIAETH ARBENNIG

## Cynllun Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig – newidiadau rheoliadol arfaethedig

*Mae'r adran hon yn ymwneud â chwestiynau 32 i 34 yr ymgynghoriad*

### Cynnig 9

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Canllaw ar gyfer Cynnig Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig yng Nghymru yn 2019, i adeiladu ar Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018 a'r Cod Ymarfer cysylltiedig. Fe'i drafftiwyd yn dilyn proses ymgynghori fanwl ledled Cymru, gan gynnwys ymchwil gyfredol o Gymru a Lloegr, ac arfer da presennol. Fe'i lansiwyd ym mis Mawrth 2020 ac, ar y pwynt hwn, roedd rhai awdurdodau lleol eisoes wedi mynegi eu cefnogaeth i warcheidiaeth arbennig, tra bod eraill yn dal i fod ar y cam datblygu ac yn dechrau ymateb i'r dyletswyddau a osodwyd arnynt o fewn y Cod Ymarfer.

Yn 2020, comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Athro Joan Hunt, drwy Gymdeithas ar gyfer Maethu, Gofal Perthynas a Mabwysiadu (AFKA) Cymru, i gynnal astudiaeth archwiliadol o darfu ar warcheidiaeth arbennig yng Nghymru - Special Guardianship Disruption in Wales in 2020 - An Exploratory Study. Cadarnhaodd canfyddiadau'r astudiaeth hon bwysigrwydd cynnig cymorth gwarcheidiaeth arbennig a nododd nifer o feysydd cymorth eraill a allai fod wedi atal y tarfu rhag digwydd.

Ar ddiwedd 2021, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad pellach i ddeall sut yr oedd Rheoliadau 2005 (fel y'u diwygiwyd yn 2018) a'r Canllaw ar gyfer Cynnig Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig yn cael eu hymwreiddio ledled Cymru. Roedd yn amlwg bod anghysondebau o hyd yn y cymorth a gynigir i deuluoedd Gwarcheidiaeth Arbennig ledled Cymru.

Yn dilyn hynny, aeth AFKA Cymru ati i greu Templed Cynllun Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig Cymru gyfan ochr yn ochr â thempled ar gyfer adolygu'r cynllun cymorth sy'n ymgorffori'r holl elfennau sydd wedi'u cynnwys yn:

- Rheoliadau 2005 (fel y'u diwygiwyd yn 2018).
- Cod Ymarfer Cysylltiedig.
- Canllaw ar gyfer Cynnig Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig yng Nghymru.
- Ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar darfu ar warcheidiaeth arbennig.

Ymgynghorwyd yn eang ar y templedi hyn yng Nghymru drwy grŵp diddordeb arbennig gofal gan berthynas AFKA Cymru sy'n cynnwys ymarferwyr a rheolwyr o nifer fawr o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n arbenigo mewn gofal gan berthynas a gwarcheidiaeth arbennig. Mae aelodaeth hefyd yn cynnwys academyddion o amrywiaeth o leoliadau.

Mae'r templedi hyn yn cyfeirio'r gweithiwr proffesiynol at y gwasanaethau gwarcheidiaeth arbennig cyffredinol sy'n ofynnol ar gyfer y plentyn, y gwarcheidwad arbennig a'r teulu ehangach (fel y nodir yn y Cod Ymarfer gwarcheidiaeth arbennig a'r canllaw ar gyfer cynnig gwasanaethau gwarcheidiaeth arbennig). Mae'r gwasanaethau hyn ar gael i bob gwarcheidwad arbennig yn yr awdurdod lleol, er enghraifft, grwpiau cymorth a grwpiau cyfoedion, mynediad at weithdai a hyfforddiant a gwybodaeth, cyngor a chymorth cyffredinol. Nid yw'r rhain yn destun unrhyw asesiad ac maent ar gael i bawb sy'n dymuno cael mynediad atynt.

Mae'r templedi hefyd yn cyfarwyddo'r gweithiwr proffesiynol i ystyried unrhyw wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig wedi'u targedu neu arbenigol sydd eu hangen ac i ystyried a oes angen cynllun gofal a chymorth Rhan 4 ar elfennau o gynllun gofal a chymorth Rhan 6 presennol y plentyn.

Diben cyffredinol y templedi yw darparu fframwaith cydlynol ar gyfer darparu cymorth wedi'i deilwra i deulu. Yn y templedi Cynllun Cymorth, rhaid nodi anghenion y gwarcheidwad arbennig, y plentyn, y rhieni ac eraill, ochr yn ochr â'r gwasanaeth sydd i'w ddarparu i ddiwallu'r anghenion hynny. Maent hefyd yn nodi amserlen ar gyfer adolygiad. Os caiff ei defnyddio, bydd yn gweithredu fel rhestr wirio i ymarferwyr ac yn helpu i ddarparu ymagwedd gyson ledled Cymru drwy nodi'n glir y cymorth y dylid ei gynnig fel mater o arfer da.

Fodd bynnag, yn ôl adborth gan randdeiliaid, er bod y templedi Cynllun Cymorth yn cael eu defnyddio gan rai awdurdodau lleol ledled Cymru a bod adborth wedi bod yn gadarnhaol, nid yw hyn wedi digwydd yn gyson.

Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid ychwanegu gofyniad statudol at y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn sicrhau bod y templedi Cynllun Cymorth yn cael eu defnyddio'n gyson gan bob awdurdod lleol ledled Cymru.

**Cwestiynau Ymgynghori**

**Asiantaethau cymorth mabwysiadu: newidiadau rheoliadol arfaethedig**

**Cwestiwn 1**: Ydych chi'n cytuno y dylid cael gwared â'r gofyniad i gofrestru ag AGC ar gyfer darparwyr gwasanaethau cymorth mabwysiadu, pan fo'r darparwyr hynny ddim ond yn darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu o dan gontract ag un neu ragor o wasanaethau mabwysiadu awdurdod lleol?

**Cwestiwn 2:** Ydych chi'n meddwl bod y gwiriadau a ddarperir drwy drefniadau comisiynu yn ddigonol i osgoi gostyngiad mewn safonau?

**Cwestiwn 3:** Ydych chi'n meddwl y bydd y newid hwn yn cynyddu nifer y darparwyr sy'n barod i ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu i blant a theuluoedd, ac felly'n gwella mynediad atynt?

**Cwestiwn 4:** Yn eich barn chi, pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau a buddion) y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau ei chael ar wahanol sefydliadau neu sectorau o fewn gofal cymdeithasol?

**Cwestiwn 5:** Beth yw eich barn chi ar estyn yr eithriad i gofrestru o dan ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol i ddarparwyr gwasanaethau cymorth mabwysiadu sy'n bartneriaethau neu'n gyrff corfforedig, sydd ddim ond yn darparu'r gwasanaethau hynny o dan gontract â gwasanaeth mabwysiadu cofrestredig?

**Gwasanaethau cwnsela a therapiwtig i oedolion, yn gysylltiedig â mabwysiadu: newidiadau rheoliadol arfaethedig**

**Cwestiwn 6:** Ydych chi'n cytuno y dylid cael gwared â'r gofyniad i gofrestru ag AGC ar gyfer darparwyr gwasanaethau cwnsela a therapiwtig i oedolion, yn gysylltiedig â mabwysiadu?

**Cwestiwn 7:** Ydych chi'n meddwl y bydd y newidiadau hyn yn gwella mynediad at wasanaethau cwnsela a therapiwtig angenrheidiol i oedolion sydd wedi'u mabwysiadu?

**Cwestiwn 8:** Yn eich barn chi, beth fydd effaith y newidiadau hyn ar ansawdd gwasanaethau cwnsela a therapiwtig i oedolion, yn gysylltiedig â mabwysiadu?

**Cwestiwn 9:** Yn eich barn chi, pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau a buddion) y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau ei chael ar wahanol sefydliadau neu sectorau o fewn gofal cymdeithasol?

**Cynllunio gofal, lleoli ac adolygu o ran mabwysiadu: newidiadau rheoliadol arfaethedig**

**Cwestiwn 10:** Ydych chi'n cytuno bod angen darparu rhagor o fanylion yng nghod ymarfer rhan 6 i gefnogi gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol yn effeithiol pan fo gan blentyn gynllun gofal ar gyfer mabwysiadu neu pan fo'n cael ei ystyried ar gyfer gwasanaethau cymorth ar ôl mabwysiadu?

**Cwestiwn 11:** Ydych chi'n cytuno y bydd y meysydd ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cynnwys yn y cod ymarfer yn rhoi eglurder ychwanegol i

ymarferwyr, pan fo gan blentyn gynllun gofal neu pan fo'n cael ei ystyried ar gyfer gwasanaethau cymorth ar ôl mabwysiadu?

**Cwestiwn 12:** Ydych chi'n cytuno y bydd ychwanegu cyfeiriadau at fframwaith sefydlogrwydd cynnar Cymru yn cael gwared ar unrhyw ddryswch ymhlith ymarferwyr?

**Cwestiwn 13:** Yn eich barn chi, pa effaith y gallai'r newidiadau arfaethedig a amlinellir yn y cynnig hwn ei chael ar wahanol sefydliadau neu sectorau o fewn gofal cymdeithasol?

**Asesu gofalwyr sy'n berthnasau a chymorth ar gyfer lleoliadau gyda pherthnasau: newidiadau rheoliadol arfaethedig**

**Cwestiwn 14:** Ydych chi'n cytuno y dylai rhan 2 o atodlen 1 i Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018 gael ei disodli gan ran 3 newydd sy'n benodol ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau?

**Cwestiwn 15:** Ydych chi'n cytuno â'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y rhan 3 newydd arfaethedig?

**Cwestiwn 16:** Oes unrhyw elfennau o ran 2 y byddai angen eu hychwanegu at ran 3 hefyd?

**Cwestiwn 17:** Oes gennych chi awgrymiadau am unrhyw ofynion ychwanegol y dylid eu cynnwys yn rhan 3?

**Dull mwy hyblyg o ymdrin â chynllunio gofal, lleoli ac adolygu achosion ar gyfer trefniadau â pherthnasau**

**Cwestiwn 18:** Ydych chi'n meddwl y bydd dull mwy hyblyg o ymdrin ag ymweliadau ac adolygiadau yn effeithiol o ran diwallu anghenion plant a gofalwyr maeth sy'n berthnasau iddynt?

**Cwestiwn 19:** Yn eich barn chi, pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau a buddion) y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau ei chael ar wahanol sefydliadau neu sectorau o fewn gofal cymdeithasol?

**Proses fwy effeithiol ac effeithlon ar gyfer trosglwyddo gofalwyr maeth rhwng darparwyr gwasanaethau maeth: newidiadau rheoliadol arfaethedig**

**Cwestiwn 20:** Ydych chi'n cytuno y bydd dod ag elfennau o'r canllawiau arferion da, sydd wedi'u nodi ym Mhrotocol Trosglwyddo (Cymru) y Rhwydwaith Maethu, o fewn fframwaith deddfwriaethol yn helpu i gael proses fwy effeithlon ar gyfer trosglwyddo gofalwyr maeth?

**Cwestiwn 21:** Ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau â'r awgrymiadau sy'n cael eu gwneud?

**Cwestiwn 22:** Yn eich barn chi, pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau a buddion) y gallai'r newidiadau arfaethedig ei chael ar wahanol sefydliadau neu sectorau o fewn gofal cymdeithasol?

**Cael mynediad at y lwfans maethu uwch (ffi)**

**Cwestiwn 23:** A yw'r paragraffau ychwanegol a awgrymir yn rhoi eglurder ynghylch sut y gall y gwahanol fathau o ofalwyr maeth gael y lwfans maethu uwch?

**Cwestiwn 24:** A yw'r diwygiad yn rhoi fframwaith clir ar gyfer darparu cymorth i ofalwyr maeth sy'n berthnasau, a gymeradwywyd dros dro?

**Cwestiwn 25:** Yn eich barn chi, pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau a buddion) y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r cod ymarfer ei chael ar wahanol sefydliadau neu sectorau o fewn gofal cymdeithasol?

**Y mecanwaith adolygu annibynnol: newidiadau rheoliadol arfaethedig**

**Cwestiwn 26:** Ydych chi'n meddwl y bydd unrhyw ganlyniadau annisgwyl o wneud y newidiadau a gynigir i Reoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010?

**Cwestiwn 27:** Yn eich barn chi, pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau a buddion) y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau ei chael ar wahanol sefydliadau neu sectorau o fewn gofal cymdeithasol?

**Cyflwyno cofrestr o ofalwyr maeth yng Nghymru**

**Cwestiwn 28:** Beth yw eich barn chi ar gofrestr genedlaethol ar gyfer gofalwyr maeth yng Nghymru?

**Cwestiwn 29:** Ydych chi'n meddwl y gallai cofrestr faethu gyflawni'r amcanion canlynol:

- codi statws
- gwella gallu gofalwyr maeth i symud rhwng gwasanaethau
- mesurau diogelu cadarn
- data cenedlaethol a help i ragweld y galw am ofalwyr maeth a'r cyflenwad ohonynt

**Cwestiwn 30:** Beth fyddai anfanteision cyflwyno cofrestr faethu yng Nghymru yn eich tyb chi?

**Cwestiwn 31:** Os cyflwynir cofrestr, pwy ydych chi'n meddwl a allai ddal y gofrestr fel corff canolog?

**Cynllun cymorth gwarcheidiaeth arbennig: newidiadau rheoliadol arfaethedig**

**Cwestiwn 32:** Ydych chi'n meddwl y bydd cyflwyno gofyniad statudol i awdurdodau neu wasanaethau lleol ddefnyddio'r templedi cynllun cymorth yn fuddiol ac yn helpu i gael dull cyson i deuluoedd ledled Cymru?

**Cwestiwn 33:** Oes unrhyw anfanteision i osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddefnyddio'r templedi wrth ymgymryd â chynllun cymorth gwarcheidiaeth arbennig?

**Cwestiwn 34:** Yn eich barn chi, pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau a buddion) y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r cod ymarfer ei chael ar wahanol sefydliadau neu sectorau o fewn gofal cymdeithasol?

**Cwestiynau eraill**

**Cwestiwn 35:** Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
- Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

**Cwestiwn 36**: Yn eich barn chi, a ellid geirio'r cynigion neu eu newid er mwyn:

- sicrhau eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Cwestiwn 37:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma.